

# Adroddiad Arolygu o Bractis Deintyddol Cyffredinol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Practis Deintyddol St James, Bwrdd  
Iechyd Prifysgol Bae Abertawe

Dyddiad yr arolygiad: 17 Medi 2024

Dyddiad cyhoeddi: 18 Rhagfyr 2024



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein [gwefan](#) neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu  
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru  
Llywodraeth Cymru  
Parc Busnes Rhyd-y-car  
Merthyr Tudful  
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163  
E-bost: [agic@llyw.cymru](mailto:agic@llyw.cymru)  
Gwefan: [www.agic.org.uk](http://www.agic.org.uk)

# Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

## Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl.

## Ein gwerthoedd

Mae pobl wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:

- Annibynnol - rydym yn ddiuedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol - rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant - rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol - rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur - rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

## Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac yn dylanwadu arno

## Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu gwasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau.



# Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom .....	5
2.	Crynodeb o'r arolygiad .....	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym .....	9
	• Ansawdd Profiad y Claf .....	9
	• Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol .....	14
	• Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth .....	20
4.	Y camau nesaf .....	25
	Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad .....	26
	Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith .....	27
	Atodiad C - Cynllun gwella.....	28

# 1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein [gwefan](#).

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Bractis Deintyddol St James, Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe ar 17 Medi 2024.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys un o Arolygwyr Gofal Iechyd AGIC ac Adolygydd Cymheiriaid Deintyddol.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom wahodd y cleifion neu eu gofalwyr i gwblhau holiadur er mwyn dweud wrthym am eu profiad o ddefnyddio'r gwasanaeth. Gwnaethom hefyd wahodd y staff i gwblhau holiadur er mwyn rhoi eu barn i ni ar weithio i'r gwasanaeth. Cwblhawyd cyfanswm o saith holiadur gan gleifion neu eu gofalwyr a chwblhawyd wyth gan aelodau o'r staff. Mae'r adborth a rhai o'r sylwadau a gafwyd yn ymddangos yn yr adroddiad.

Lle bo dyfyniadau yn y cyhoeddiad hwn, mae'n bosibl eu bod wedi cael eu cyfieithu o'u hiaith wreiddiol.

Nodwch fod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

## 2. Crynodeb o'r arolygiad

### Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:

Cafwyd adborth cadarnhaol gan gleifion am y gofal a'r gwasanaeth a ddarperir gan Bractis Deintyddol St James. Gwelsom fod y staff yn broffesiynol, yn gyfeillgar ac yn gwrtais a'u bod yn trin y cleifion ag urddas a pharch.

Roedd gwybodaeth am ofal iechyd ar gael yn y practis ond mewn ffolder gwybodaeth i gleifion yr oedd hyn yn bennaf, gan olygu mai dim ond un claf allai ei gweld ar y tro. Gwelsom fod gwybodaeth hanfodol, gan gynnwys ffioedd, wedi'i harddangos yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Dyweddodd y cleifion eu bod yn cael digon o wybodaeth i ddeall yr opsiynau triniaeth sydd ar gael a risgiau a manteision cysylltiedig y driniaeth.

Dyweddwyd wrthym fod cleifion y GIG yn aros tua thri mis rhwng pob apwyntiad ar gyfer triniaeth. Roedd slotiau apwyntiadau ar gael yn y bore a'r prynhawn er mwyn bodloni gofynion triniaeth frys.

Roedd polisi cydraddoldeb ac amrywiaeth cyfredol ar waith ac roedd pob aelod o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant ar y pwnc. Cadarnhaodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC nad oeddent wedi wynebu unrhyw wahaniaethu wrth ddefnyddio'r gwasanaeth.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Sicrhau bod gwybodaeth ar gael mewn fformatau eraill sy'n ystyried pobl ag anawsterau darllen.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd urddas y cleifion yn cael ei gynnal gan fod drysau'r deintyddfeydd yn cael eu cau a'r ffenestri'n cael eu gorchuddio
- Dywedodd y cleifion ei bod yn 'hawdd iawn' neu'n 'eithaf hawdd' cael apwyntiad pan fydd angen un arnynt
- Roedd Cynllun Personol ar gyfer Gwagio'r Adeilad mewn Argyfwng ar waith er mwyn helpu'r staff a'r cleifion pe bai argyfwng
- Roedd arwyddion yn y dderbynfa ac roedd y staff yn gwisgo bathodynnew gweledol i ddangos i'r cleifion y gellid darparu gwasanaeth dwyieithog ar gais.

## Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom fod yr ystafelloedd trin ac ardaloedd y cleifion yn lân ac yn daclus. Fodd bynnag, gwnaethom nodi hollt mawr yn y wal wrth y grisiau ac ar ochr allanol yr adeilad. Gwelsom fod yr islawr yn llaith iawn a bod angen rhoi sylw iddo.

Dywedwyd wrthym fod gwaith unioni'n cael ei drafod gyda landlord yr adeilad.

Yn gyffredinol, gwelsom fod trefniadau addas ar waith yn y practis i ddarparu gofal diogel ac effeithiol i'r cleifion.

Gwelsom fod ardal ddihalogi benodedig a systemau addas ar waith ar gyfer glanhau offer deintyddol aml dro a chludo offer yn ddiogel o amgylch y practis.

Roedd cydymffurfiaeth dda mewn perthynas â defnyddio peiriannau pelydr-X yn y practis, ac roedd trefniadau diogel ar waith ar gyfer defnyddio'r cyfarpar yn ddiogel.

Roedd polisïau a gweithdrefnau diogelu ar waith ac roedd manylion cyswllt lleol ar gael yn hawdd. Roedd pob aelod o'r staff wedi cwblhau'r hyfforddiant diogelu diweddaraf.

Roedd y cofnodion deintyddol a welsom o ansawdd da a dim ond rhai pwyntiau i'w gwella a nodwyd.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Rhaid mynd i'r afael â nifer o faterion yn ymwneud â chynnal a chadw'r adeilad
- Rhaid i sil y ffenestr yn neintyddfa un gael ei selio'n briodol
- Rhaid i gofnodion cleifion sydd wedi'u cadw y tu hwnt i'r cyfnodau cadw statudol gael eu gwaredu mewn ffordd addas
- Rhaid i ddewis iaith y cleifion gael ei gofnodi yn eu cofnodion.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd cydymffurfiaeth dda mewn perthynas â diogelwch tân ac roedd yr archwiliadau diogelwch nwy a thrydan yn gyfredol
- Roedd y gweithdrefnau i'w dilyn pe bai rhywun yn cael anaf offer miniog ar gael yn hawdd ym mhob deintyddfa
- Roedd cyffuriau brys yn cael eu rheoli'n dda

- Roedd y cofnodion ar gyfer hyfforddiant ar silindrau ocsigen a chydymffurfiaeth mewn perthynas â hynny yn drefnus
- Roedd hyfforddiant ar ddiogelu a phrosesau priodol ar waith, ac roedd siartiau llif ar gael yn hawdd.

## Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:

Roedd strwythur rheoli clir ar waith ynghyd â llinellau adrodd clir ar gyfer y staff. Roedd aelodau'r uwch-dîm rheoli yn ymddangos yn agored ac yn hawdd mynd atynt. Er bod nifer o feysydd yr oedd angen eu gwella, roeddem o'r farn bod y practis yn cael ei redeg yn effeithiol.

Roedd amrywiaeth gynhwysfawr o bolisiau a gweithdrefnau cyfredol ar gael. Roedd system gyfrifiadurol y practis yn cynnwys cofrestr drefnus o bolisiau a chofnod o'r dyddiadau y cawsant eu darllen gan y staff.

Yn gyffredinol, roedd cydymffurfiaeth y staff â hyfforddiant gorfodol a rhwymedigaethau proffesiynol yn dda, ond dywedodd y staff y byddai hyfforddiant ar feddalwedd y practis yn fuddiol.

Gwelsom fod trefniadau priodol ar waith ar gyfer recriwtio staff, ynghyd â phroses sefydlu a ddogfennwyd ac a gymeradwywyd.

Roedd rhaglen sicrhau ansawdd ar waith yn y practis a gwelsom dystiolaeth o nifer o archwiliadau clinigol a oedd yn helpu i gynnal a gwella safon y gwasanaethau a ddarperid.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Cynnal arfarniadau mewn modd amserol yn unol â pholisi'r practis
- Sicrhau bod pob aelod o'r staff yn deall y Ddyletswydd Gonestrwydd ac yn ymwybodol o'i rôl o ran cyrraedd y safon hon.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Cydymffurfiaeth dda â rhwymedigaethau proffesiynol
- Hysbysfwrdd 'Dywedoch chi, gwnaethom ni' yn yr ardal aros i gleifion yn rhoi gwybod i'r cleifion am newidiadau a wnaed o ganlyniad i'w hadborth
- Cyfeiriad e-bost cwynion canolog penodol i ymdrin â chwynion, gan sicrhau bod pob mater yn cael ei gofnodi a'i ddadansoddi gan dîm cwynion canolog
- Polisi diogelu data a gwybodaeth cyfredol i sicrhau bod gwybodaeth am gleifion yn cael ei thrin yn briodol.



## 3. Yr hyn a nodwyd gennym

### Ansawdd Profiad y Claf

#### Adborth gan Gleifion

Roedd yr ymatebion a gafwyd i holiadur AGIC yn gadarnhaol ar y cyfan. Dywedodd pob un o'r 7 ymatebydd fod y gwasanaeth yn 'dda' neu'n 'dda iawn'.

Roedd rhai o'r sylwadau a gafwyd gan y cleifion yn yr holiaduron yn cynnwys y canlynol:

*“Staff cyfeillgar iawn sy'n barod i helpu. Does dim byd yn ormod o drafferth. Mae'r staff yn poeni amdanoch, sy'n braf ei weld. Rwyf wedi bod yn dod i'r practis ers blynyddoedd ac mae bob amser yr un peth, mae'n bleser dod yma.”*

#### Yn Canolbwyntio ar yr Unigolyn

##### Hybu Iechyd

Roedd gan y practis ddatganiad o ddiben a thaflen wybodaeth i gleifion cyfredol, yn unol â Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017. Roedd y ddwy ddogfen yn cynnwys gwybodaeth ddefnyddiol am y gwasanaethau a gynigir yn y practis. Ni welsom fod fersiynau Cymraeg o'r daflen wybodaeth i gleifion ar gael.

Gwelsom fod gwybodaeth am ofal iechyd yn yr ardal aros i gleifion, gan gynnwys cyngor ar roi'r gorau i smygu, canser y geg a bwyta'n iach. Fodd bynnag, roedd y wybodaeth hon yn cael ei chadw mewn ffolder gwybodaeth i gleifion gan olygu mai dim ond un claf allai ei gweld ar y tro. Gwnaethom drafod opsiynau i'w gwneud yn haws i bob claf weld y wybodaeth hon yn yr ardal aros i gleifion.

Roedd gwybodaeth am gostau triniaethau preifat a thriniaethau'r GIG wedi'i harddangos. Dywedwyd wrthym y byddai'r cleifion yn cael cyngor hybu iechyd perthnasol wrth gael eu gweld gan y deintyddion a'r gweithwyr gofal deintyddol proffesiynol eraill a oedd yn gweithio yn y practis. Roedd poster wedi'i arddangos yn rhoi gwybod i'r cleifion am risgiau a manteision pelydr-X.

Roedd enwau aelodau presennol y tîm deintyddol, a'u rhifau cofrestru â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol, wedi'u harddangos. Gwelsom arwyddion yn rhoi gwybod i

gleifion ac ymwelwyr â'r practis nad oedd smygu yn cael ei ganiatáu ar y safle, yn unol â'r ddeddfwriaeth gyfredol.

Roedd pob un o'r ymatebwyr a atebodd y cwestiwn yn cytuno bod y staff wedi esbonio iechyd y geg iddynt mewn ffordd y gallent ei deall ac roeddent yn cytuno bod y staff wedi rhoi cyfarwyddiadau ôl-ofal iddynt ar sut i gynnal iechyd y geg da.

### **Gofal Urddasol a Pharchus**

Gwelsom fod y staff yn gwrtais ac yn trin y cleifion â pharch a charedigrwydd. Roedd gan bob aelod o'r staff gopi o bolisi Diogelu Data a Diogelwch Gwybodaeth y practis, a oedd yn ymdrin â chyfrinachedd cleifion.

Gwelsom fod haen ddi-draidd ar y ffenestr yn un o'r deintyddfeydd, ac nad oedd ffenestri yn y llall. Gwelsom fod drysau'r deintyddfeydd yn cael eu cau pan fyddai'r deintyddion yn trin cleifion, gan sicrhau preifatrwydd ac urddas y cleifion.

Roedd pob un o'r ymatebwyr a gwblhaodd holiadur AGIC i gleifion yn teimlo eu bod wedi cael eu trin ag urddas a pharch yn y practis.

Roedd desg y dderbynfa a'r ardal aros i gleifion yn yr un ystafell. Gwnaethom nodi fod yr ystafell hon yn brysur ar adegau amrywiol drwy gydol y dydd. Dywedwyd wrthym y byddai trafodaethau cyfrinachol â chleifion a galwadau ffôn yn cael eu cynnal mewn deintyddfa wag, neu yn swyddfa rheolwr y practis y tu ôl i'r dderbynfa.

Roedd egwyddorion moesegol craidd y Cyngor Deintyddol Cyffredinol wedi'u harddangos yn Gymraeg ac yn Saesneg mewn man lle y gallai'r cleifion eu gweld yn hawdd.

### **Gofal wedi'i deilwra at yr unigolyn**

Roedd pob un o'r ymatebwyr a gwblhaodd holiadur AGIC i gleifion yn cytuno eu bod wedi cael digon o wybodaeth i ddeall yr opsiynau triniaeth a oedd ar gael, bod y staff wedi esbonio'r hyn roeddent yn ei wneud drwy gydol yr apwyntiad a'u bod yn teimlo bod y staff wedi gwrandao arnynt ac wedi ateb eu cwestiynau.

Dywedodd pob un o'r ymatebwyr eu bod wedi cael digon o wybodaeth i ddeall risgiau a manteision yr opsiynau triniaeth a'u bod wedi cael eu cynnwys cymaint ag yr oeddent am gael eu cynnwys yn y penderfyniadau am eu triniaeth. Cadarnhaodd pob un o'r ymatebwyr fod y staff wedi gwirio eu hanes meddygol cyn rhoi triniaeth.

Dywedodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr (6/7) fod y prisiau wedi'u nodi'n glir cyn iddynt gael triniaeth, a dywedodd yr ymatebydd arall nad oedd y cwestiwn yn berthnasol iddo.

## Amserol

### Gofal Amserol

Dywedwyd wrthym y byddai staff y dderbynfa yn rhoi gwybod i gleifion am unrhyw oedi o ran eu hapwyntiad.

Roedd y practis yn trefnu apwyntiadau dros y ffôn, neu wyneb yn wyneb yn y dderbynfa ar y pryd. Dywedwyd wrthym fod cyfleuster trefnu apwyntiadau ar-lein ar gael ond y byddai hwn yn cael ei ddiffodd ar adegau am fod cleifion yn dewis yr opsiynau triniaeth anghywir. Dywedwyd wrthym fod cleifion yn aros tua thri mis rhwng pob apwyntiad ar gyfer triniaeth.

Dywedodd pob un o'r cleifion a ymatebodd i holiadur AGIC ei bod yn 'hawdd iawn' neu'n 'eithaf hawdd' cael apwyntiad pan oedd angen un arnynt.

Dywedwyd wrthym y byddai angen i gleifion yr oedd angen apwyntiad brys arnynt ffonio'r practis am 08:30am. Roedd yr amserlen ddyddiol yn cynnwys tri slot ar gyfer triniaeth frys er mwyn bodloni'r ceisiadau hyn.

Roedd pob un o'r ymatebwyr a oedd yn teimlo ei fod yn berthnasol eu bod wedi cael canllawiau digonol ar yr hyn y dylent ei wneud ac â phwy y dylent gysylltu pe bai ganddynt haint neu argyfwng.

Roedd oriau agor a rhif ffôn cyswllt y tu allan i oriau'r practis wedi'u harddangos yn glir a gellid eu gweld o'r tu allan i'r adeilad. Roedd gwybodaeth gyswllt y tu allan i oriau hefyd ar gael ar wasanaeth peiriant ateb y practis ac yn y daflen wybodaeth i gleifion. Nid oedd unrhyw drefniadau arbennig ar waith i alluogi'r cleifion i gael triniaeth ar amser sy'n addas iddynt, er bod apwyntiadau ar gyfer plant ysgol yn cael eu trefnu yn ystod gwyliau'r ysgol lle y bo'n bosibl.

Er gwaethaf hyn, dywedodd dau o'r ymatebwyr a gwblhaodd holiadur AGIC na fyddent yn gwybod sut i gael gafael ar y gwasanaeth deintyddol y tu allan i oriau pe bai ganddynt broblem ddeintyddol frys.

Rydym yn argymhell y dylai'r rheolwr cofrestredig fyfyrion ar y materion a godwyd yn yr adborth hwn er mwyn sicrhau bod cleifion yn gwybod sut i gael gafael ar y gwasanaeth deintyddol y tu allan i oriau.

## Teg

## **Cyfathrebu ac Iaith**

Er bod gwybodaeth hanfodol wedi'i harddangos yn Gymraeg ac yn Saesneg yn y practis, gwelsom mai nifer cyfyngedig o daflenni gofal iechyd oedd ar gael mewn fformatau amgen, fel hawdd eu deall neu ffont mawr, a oedd yn ystyried anghenion cleifion ag anawsterau darllen.

**Rhaid i'r rheolwr cofrestredig roi manylion i AGIC am y ffordd y bydd y practis yn darparu gwybodaeth mewn fformatau eraill sydd o fudd i gleifion ag anawsterau darllen.**

Gwelsom fod y derbynnydd yn siarad Cymraeg a bod y practis yn ymwybodol o'r 'Cynnig Rhagweithiol' i ddarparu gofal drwy gyfrwng y Gymraeg. Dywedwyd wrthym y gellid trefnu i glinigwyr sy'n siarad Cymraeg o bractisau cangen fod yn bresennol hefyd. Gwelsom fod arwyddion priodol yn y dderbynfa a bod y staff yn gwisgo bathodynau 'Iaith Gwaith' i ddangos i'r cleifion y gellid darparu gwasanaeth dwyieithog pe bai angen.

Cawsom sicrwydd bod y staff yn deall pwysigrwydd darparu gofal iechyd yn newis iaith y cleifion. Er mwyn helpu yn hyn o beth, roedd gwasanaeth cyfieithu addas ar gael i gleifion y mae angen iddynt gyfathrebu mewn iaith arall. Gwelsom hefyd fod doler sain wedi'i gosod er mwyn helpu cleifion â nam ar eu clyw.

Dywedwyd wrthym y gellid trefnu apwyntiadau wyneb yn wyneb yn y dderbynfa neu dros y ffôn, a oedd yn sicrhau y gallai cleifion heb fynediad at ddyfeisiau digidol drefnu triniaeth.

## **Hawliau a Chydraddoldeb**

Gwelsom fod polisi cydraddoldeb ac amrywiaeth priodol a chyfredol ar waith yn y practis a bod y staff wedi cwblhau hyfforddiant ar y pwnc hwn. Roedd polisi bwlio ac aflonyddu hefyd ar waith ac roedd posteri cysylltiedig wedi'u harddangos. Gwelsom fod y staff wedi cwblhau hyfforddiant ar reoli gwrthdaro a bwlio ac aflonyddu hefyd. Yn ystod ein harolygiad, gwelsom y staff yn ymdrin â'r cleifion mewn modd cwrtais a phroffesiynol ac yn trin pawb â pharch.

Gwelsom fod trefniadau addas ar waith i sicrhau bod hawliau cleifion trawsryweddol yn cael eu cynnal a bod arwyddion cynhwysol yn cael eu defnyddio lle y bo'n briodol. Cawsom sicrwydd bod gofal a thriniaethau deintyddol yn cael eu darparu yn y practis mewn ffordd a oedd yn cydnabod anghenion a hawliau'r cleifion.

Dywedodd pob un o'r ymatebwyr a gwblhaodd holiadur AGIC i gleifion wrthym nad oeddent wedi profi gwahaniaethu wrth gael gafael ar y gwasanaethau a ddarperir gan y practis.

Roedd y lloriau yn wastad ym mhob rhan o'r practis, er bod gris bach i mewn i brif fynedfa'r practis o'r tu allan. Gwnaethom nodi bod ramp bach yn cael ei ddarparu i helpu pobl mewn cadair olwyn, er bod hwn ychydig yn llai na'r hyn sydd ei angen. Dywedwyd wrthym fod cais wedi'i wneud i'r rhiant gwmni ddarparu ramp mwy addas yn lle'r ramp hwn. Gwelsom fod hysbysiad yn y dderbynfa yn rhoi gwybod i'r cleifion fod Cynllun Personol ar gyfer Gwagio'r Adeilad mewn Argyfwng ar waith i'w helpu mewn argyfwng pe bai angen.

Gwelsom y dderbynfa, yr ardal aros, y deintyddfeydd a'r toiled i gleifion ar y llawr gwaelod. Roedd y toiled i gleifion yn lân ac wedi'i addurno i safon dda, ond nid oedd yn addas i bobl sy'n defnyddio cadair olwyn. Fodd bynnag, gwelsom fod y daflen wybodaeth i gleifion yn nodi bod yr adeilad yn addas i gleifion anabl. Gwnaethom godi hyn gyda rheolwr y practis, a ddiwygiodd y daflen wybodaeth i gleifion yn briodol yn ystod yr arolygiad.

Dywedodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr a gwblhaodd holiadur AGIC i gleifion wrthym eu bod o'r farn bod yr adeilad yn hygyrch, a dywedodd un mai dim ond rhannol hygyrch ydoedd. Roedd un ymatebydd yn ansicr.

# Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

## Diogel

### Rheoli Risg

Gwnaethom nodi bod y practis yn lân ac yn gyfforddus a bod yr ardaloedd i gleifion yn lân yr olwg, heb annibendod a pheryglon. Roedd yr ystafelloedd trin wedi'u lleoli ar y llawr gwaelod a gwelsom eu bod yn fawr, wedi'u goleuo'n dda, ac yn lân iawn ar y cyfan.

Gwelsom fod polisi addas a chyfredol ar waith mewn perthynas â chynnal a chadw'r adeilad. Serch hynny, gwelsom fod hollt sylweddol yn y wal wrth y grisiau i'r ardal ddihalogi ar y llawr cyntaf. Gwelsom fod y practis eisoes wedi cysylltu â pheiriannydd i asesu'r broblem a gwelsom gopi o'r adroddiad dilynol ynghyd â'r argymhellion. Dywedwyd wrthym fod y practis wrthi'n trafod â'r landlord i ddatrys y mater.

Gwnaethom hefyd sylwi ar hollt llai amlwg, ond mawr ar y wal ochr allanol, ynghyd â phibellau a oedd wedi'u difrodi'n wael. Nid oedd yn glir a oedd hyn yn rhan o adroddiad y peiriannydd.

### Rhaid i'r rheolwr cofrestredig wneud y canlynol:

- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC am gynnydd gwaith i ddatrys yr hollt yn y wal
- Darparu sicrwydd ysgrifenedig ynghylch cyflwr strwythurol yr adeilad
- Trwsio'r pibellau wedi'u difrodi ar y wal ochr allanol.

Gwelsom hefyd fod ardal yr islawr yn llaith iawn ac mewn cyflwr gwael iawn. Roedd yn ymddangos bod yr ardal hon yn cael ei defnyddio i storio hen ddogfennau a chyfarpar a adawyd gan y tenantiaid blaenorol. Er y dywedwyd wrthym nad oedd yr ardal hon yn rhan o drefniadau rhentu'r practis a'i bod yn cael ei chloi er mwyn atal mynediad heb awdurdod, roeddem yn pryderu y gallai'r lleithder effeithio ar fesurau atal a rheoli heintiau mewn rhannau eraill o'r adeilad ac o bosibl fod wedi cyfrannu at yr hollt yn y wal. Eto, nid oedd yn glir a oedd hyn yn rhan o adroddiad y peiriannydd.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig wneud trefniadau addas i ddatrys y broblem lleithder er mwyn atal hyn rhag effeithio ar safonau atal a rheoli heintiau yn y practis.

Y tu allan i'r adeilad, gwelsom lwydni, paent yn plicio a gwaith cerrig yn briwsioni ar y bwa uwchben y fynedfa. Roedd nifer o'r cerrig pafin a oedd yn arwain at y fynedfa flaen wedi cracio, er nad oedd y rhain yn peri risg o gwmpo ar adeg yr

arolygiad. Anogir y rheolwr cofrestredig i ystyried gwneud gwaith adnewyddu i'r tu allan i'r adeilad yn unol â pholisi'r practis ar gynnal a chadw'r adeilad. Gwelsom fod y cofnodion diogelwch nwy blynyddol, yr arolygiad bob pum mlynedd o wifrau a'r Profion Dyfeisiau Cludadwy yn gyfredol.

Roedd polisi parhad busnes addas ar waith, ynghyd â rhifau cyswllt perthnasol a'r gweithdrefnau i'w dilyn pe na fyddai'n bosibl darparu'r amrywiaeth lawn o wasanaethau yn sgil digwyddiadau brys. Roedd poster iechyd a diogelwch cymeradwy wedi'i arddangos yn glir i'r staff ei weld ac roedd yswiriant atebolrwydd cyflogwr ac yswiriant atebolrwydd cyhoeddus cyfredol ar waith. Roedd trefniadau ar waith i'r staff newid a storio eu heiddo personol.

Gwnaethom arolygu'r trefniadau ar ddiogelwch tân a gwelsom fod wardeiniaid tân wedi cael eu penodi a bod driliau diogelwch tân yn cael eu cynnal yn rheolaidd. Roedd nifer o ddiffoddwyr tân yn y practis a gwelsom eu bod wedi cael eu gwasanaethu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, ynghyd â'r goleuadau brys. Gwelsom fod arwyddion addas ar gyfer yr allanfeydd tân ac nad oedd dim yn eu rhwystro.

Roedd asesiad risg diogelwch tân wedi cael ei gynnal yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, a gwelsom dystiolaeth bod yr argymhellion wedi'u dilyn. Roedd arwyddion dim smygu wedi'u harddangos yn glir.

Roedd cofnodion hyfforddiant y staff yn dangos bod pob aelod o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant ar ymwybyddiaeth o ddiogelwch tân. Roedd y staff perthnasol a benodwyd wedi cwblhau hyfforddiant ychwanegol i swyddogion tân.

### **Atal a Rheoli Heintiau a Dihalogi**

Gwelsom fod polisiau a gweithdrefnau cyfredol ar waith mewn perthynas ag atal a rheoli heintiau a dihalogi, a bod swyddog rheoli heintiau arweiniol dynodedig wedi cael ei benodi. Roedd amserlenni glanhau ar waith i gefnogi prosesau glanhau effeithiol.

Roedd y deintyddfeydd yn lân yr olwg ac roeddent wedi'u dodrefnu mewn ffordd a oedd yn golygu y gellid eu glanhau'n effeithiol. Fodd bynnag, gwelsom nad oedd sil y ffenestr yn neintyddfa un wedi cael ei selio'n ddigonol gan olygu bod llwch a malurion yn cronni y tu ôl iddi.

**Rhaid i'r rheolwr cofrestredig drefnu i sil y ffenestr gael ei selio'n briodol er mwyn helpu i sicrhau bod y ddeintyddfa'n cael ei glanhau'n ddigonol.**

Roedd cyfleusterau golchi a sychu dwylo addas ar gael ym mhob deintyddfa, yn yr ardal ddihalogi ac yn y toiledau. Roedd cyfarpar diogelu personol (PPE) ar gael yn hwylus i'r staff ei ddefnyddio. Gwelsom fod cymorth galwedigaethol addas ar gael

i'r staff a bod gweithdrefnau i'w dilyn pe bai rhywun yn cael anaf offer miniog ar gael yn hawdd yn y ddwy ddeintyddfa.

Dywedodd pob claf a gwblhaodd holiadur AGIC fod y practis yn lân, yn eu barn nhw.

Roedd ystafell ddihalogi benodol yn y practis gyda system briodol ar waith er mwyn cludo'r offer a oedd wedi'u defnyddio'n ddiogel rhwng yr ystafell ddihalogi a'r deintyddfeydd. Dangoswyd trefniadau priodol ar gyfer glanhau a dihalogi offer aml dro.

Gwelsom fod profion cyfnodol wedi'u cynnal ar y cyfarpar dihalogi ac roedd tystiolaeth i ddangos bod gwaith cynnal a chadw yn mynd rhagddo yn rheolaidd. Gwelsom fod archwiliadau rheoli heintiau blynyddol yn cael eu cwblhau yn unol â Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM) 01-05.

Gwnaethom gadarnhau bod pob aelod o'r staff a oedd gweithio yn y practis wedi cwblhau hyfforddiant ar atal a rheoli heintiau, a gwelsom dystiolaeth o hyn yn y sampl o ffeiliau'r staff a welsom.

Gwnaethom edrych ar y trefniadau ar gyfer gwahanu a storio gwastraff clinigol ac roeddem o'r farn eu bod yn briodol. Roedd trefniadau addas ar waith i waredu gwastraff clinigol.

### **Rheoli Meddyginiaethau**

Gwelsom fod polisi cyfredol ar waith ar gyfer rheoli meddyginiaethau yn y practis. Roedd prosesau addas ar waith ar gyfer caffael, storio, trin a gwaredu cyffuriau. Lle y bo'n berthnasol, gwelsom fod unrhyw feddyginiaethau a oedd yn cael eu rhoi yn cael eu cofnodi yn nodiadau'r cleifion.

Dywedwyd wrthym y byddai digwyddiadau niweidiol yn ymwneud â meddyginiaethau yn cael eu cofnodi gan ddefnyddio'r cynllun Cerdyn Melyn. Roedd arwyddion wedi'u harddangos i atgoffa'r cleifion i roi gwybod i'r practis am unrhyw newidiadau i'w hanes meddygol.

Gwelsom fod polisi priodol ar waith ar gyfer ymateb i argyfwng meddygol yn y practis. Roedd hwn yn seiliedig ar y canllawiau cenedlaethol cyfredol ar adfywio ac roedd wedi'i adolygu yn ystod y 12 mis diwethaf. Dywedwyd wrthym y gallai cleifion wneud cais amdano.

Gwelsom fod y rhan fwyaf o'r staff a oedd yn gweithio yn y practis wedi cwblhau hyfforddiant ar adfywio yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.



Gwnaethom archwilio'r cyfarpar a'r meddyginiaethau a fyddai'n cael eu defnyddio mewn argyfwng yn y practis. Gwelwyd bod meddyginiaethau yn cael eu storio'n ddiogel ac yn unol â chyfarwyddiadau'r gweithgynhyrchwr. Roedd system addas ar waith ar gyfer gwirio stociau a nodi pryd y byddai angen cael meddyginiaethau a chwistrellau newydd. Gwelsom fod yr holl feddyginiaethau o fewn eu dyddiad defnyddio.

Gwelsom dystiolaeth o wiriadau cynnal a chadw a gwasanaethau ar gyfer y silindrau ocsigen a bod pob aelod o'r staff wedi cwblhau'r hyfforddiant perthnasol i'w defnyddio.

Roedd y pecyn cymorth cyntaf yn drefnus yr olwg. Roedd niferoedd priodol o swyddogion cymorth cyntaf i sicrhau bod swyddog ar gael pe bai un arall yn sâl neu ar wyliau.

### **Rheoli Dyfeisiau a Chyfarpar Meddygol**

Gwelsom fod cyfarpar addas ar gael yn y deintyddfeydd i ddarparu gofal deintyddol diogel ac effeithiol. Roedd y cyfarpar yn ymddangos yn lân ac mewn cyflwr da, a gwelsom fod y cywasgydd wedi cael ei wasanaethu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Roedd pob aelod o'r staff a gwblhaodd holiadur AGIC yn cytuno bod cyfleusterau priodol iddo gyflawni ei rôl, a bod yr amgylchedd yn briodol i sicrhau bod y cleifion yn cael y gofal sydd ei angen arnynt. Dywedodd pob un ohonynt y byddent yn hapus i ffrind neu berthynas gael safon y gofal yn y practis.

Gwelsom fod y ddogfennaeth ofynnol ar gael i ddangos bod trefniadau diogel ar waith ar gyfer defnyddio'r cyfarpar pelydr-X a bod y profion a'r gwaith cynnal a chadw gofynnol wedi'u cwblhau. Gwelsom fod asesiad risg ymbelydredd cyfredol ar waith a bod rheolau lleol ar gael i'r staff eu defnyddio. Roedd stocrestr gyfredol o'r cyfarpar ymbelydredd.

Gwelsom fod rhaglen sicrhau ansawdd ar waith mewn perthynas â phelydrau-X a oedd yn cynnwys achosion o gysylltiad damweiniol, lefelau dosau ac ansawdd delweddau. Gwelsom dystiolaeth bod archwiliadau radiograffig wedi cael eu cwblhau.

Gallai gofalwyr gefnogi'r cleifion yn ystod yr archwiliad radiograffig yn unol â phrotocolau a pholisi diogelu rhag ymbelydredd y practis. Gwelsom fod gwybodaeth yn cynghori'r cleifion am risgiau a manteision pelydrau-X wedi'i harddangos yn y deintyddfeydd. Roeddem o'r farn nad dyma'r lle mwyaf priodol i'r cleifion ddarllen ac ystyried y wybodaeth hon. Cytunwyd â rheolwr y practis y byddai'r ardal aros i gleifion yn lle gwell i arddangos y wybodaeth hon.

Gwnaethom gadarnhau bod pob aelod o'r staff a oedd yn ymwneud â'r defnydd o belydrau-X wedi cwblhau'r hyfforddiant perthnasol, a gwelsom dystiolaeth o hyn yn y sampl o ffeiliau'r staff a welsom.

### **Diogelu Plant ac Oedolion**

Gwelsom fod polisi a gweithdrefnau ysgrifenedig addas ar waith mewn perthynas â diogelu. Roedd y rhain yn seiliedig ar Weithdrefnau Diogelu cyfredol Cymru ac roeddent yn cynnwys manylion cyswllt y tîm diogelu lleol perthnasol.

Gwelsom fod gan y practis bolisi cydsyniad a oedd hefyd yn cynnwys sut y byddai'r practis yn asesu galluedd claf i gydsynio. Er mwyn helpu'r staff gyda'r broses hon, roedd ffurflenni galluedd i gydsynio a chanllawiau ar ddechrau sgysiau ar gael ym mhob deintyddfa.

Roedd gan y practis arweinydd diogelu yr oedd ganddo ap Diogelu Cymru Gyfan ar ei ffôn clyfar, gan sicrhau bod y canllawiau diweddaraf ar gael iddo. Dywedwyd wrthym fod y wybodaeth ddiweddaraf am faterion diogelu yn cael ei rhannu â'r staff mewn cyfarfodydd tîm ac ar grŵp WhatsApp y practis. Gwelsom fod siartiau llif diogelu wedi'u harddangos yng nghegin y staff i'w galluogi i gyfeirio atynt yn gyflym pe bai ganddynt bryder.

Roedd pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant diogelu i lefel briodol, yn ddeallus am y pwnc yn ôl pob golwg ac yn gwybod gyda phwy i gysylltu pe bai pryder.

## **Effeithiol**

### **Gofal Effeithiol**

Gwelsom fod digon o staff wedi'u hyfforddi'n addas ar gael yn y practis i ddarparu gofal diogel ac effeithiol i gleifion. Ar y cyfan, gwelsom fod y staff yn glir ynghylch eu rolau a'u cyfrifoldebau yn y practis a bod canllawiau rheoleiddiol a statudol yn cael eu dilyn. Roedd cyngor proffesiynol perthnasol ar gael i'r staff drwy grwpiau ar-lein o fewn grŵp ehangach Rodericks Dental Partners.

Gwelsom fod y practis yn defnyddio'r rhestrau gwirio a argymhellir i leihau'r risg o dynnu'r dant anghywir. Roedd y rhain ar gael ym mhob deintyddfa.

### **Cofnodion Cleifion**

Gwelsom fod system addas ar waith er mwyn helpu i sicrhau bod cofnodion digidol cleifion yn cael eu rheoli a'u storio'n ddiogel. Dywedwyd wrthym fod y cofnodion yn cael eu cadw am y cyfnod priodol o amser yn unol â Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017. Gwelsom fod hen gofnodion papur y tenantiaid blaenorol wedi cael eu symud i system ddata'r practis. Fodd bynnag, nodwyd bod y cofnodion

papur hyn yn cael eu storio'n briodol yn yr islawr ac roedd y rhai y gwnaethom edrych arnynt wedi mynd y tu hwnt i'r cyfnod cadw angenrheidiol.

**Rhaid i'r rheolwr cofrestredig drefnu i'r canlynol gael ei gyflawni:**

- Symud cofnodion cleifion sydd o fewn y cyfnod cadw gorfodol a'u storio'n briodol
- Gwaredu cofnodion cleifion sydd wedi mynd y tu hwnt i'r cyfnodau cadw yn ddiogel.

Gwnaethom edrych ar gofnodion gofal deintyddol deg claf. Roedd yr holl gofnodion y gwnaethom edrych arnynt yn cynnwys dynodyddion cleifion addas, y rheswm dros yr apwyntiad a'r symptomau. Gwelsom fod hanes meddygol cychwynnol wedi'i lofnodi a bod cyngor ar roi'r gorau i smygu wedi'i gofnodi lle y bo'n berthnasol.

Gwelsom dystiolaeth bod siartiau sylfaenol llawn, archwiliadau o feinweoedd meddal a chynlluniau ac opsiynau triniaeth wedi'u cofnodi'n briodol.

Fodd bynnag, gwnaethom nodi rhai hepgoriadau yn y cofnodion. Er bod y rhan fwyaf o'r cofnodion yn dangos bod y claf wedi rhoi cydsyniad ar sail gwybodaeth a bod Archwiliad Periodontol Sylfaenol wedi'i gynnal, nid oedd dau o'r cofnodion yn cynnwys y wybodaeth hon. Gwelsom hefyd nad oedd prosesau sgrinio canser y geg wedi'u cofnodi yn y rhan fwyaf o gofnodion y cleifion y gwnaethom edrych arnynt. Gwelsom fod cyfiawnhad dros gynnal pelydrau-X ac asesiadau risg ar gyfer ceudodau, traul dannedd a chanser yn cael ei gofnodi mewn modd anghyson.

**Rhaid i'r rheolwr cofrestredig roi manylion i AGIC am y camau a gymerwyd i fynd i'r afael â'n canfyddiadau mewn perthynas â chyflawnder cofnodion y cleifion.**

Yn ogystal, gwelsom nad oedd dewis iaith y cleifion wedi'i gofnodi a allai eu hatal rhag cael gofal effeithiol ac wedi'i deilwra at yr unigolyn.

**Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff dewis iaith y cleifion a'r camau a gymerwyd i fynd i'r afael ag unrhyw anghenion ieithyddol eu cofnodi yng nghofnodion cleifion.**

## **Effeithlon**

### **Effeithlon**

Dywedwyd wrthym fod trefniadau ar waith i sicrhau bod y practis yn gweithredu mewn ffordd effeithlon a oedd yn cynnal safon y gofal, a bod therapyddion a

hylanwyr yn cael eu cyflogi yn y practis ar gyfer atgyfeiriadau mewnol. Caiff pob atgyfeiriad, gan gynnwys gofal canser brys, eu monitro a'u holrhain gan reolwr y practis.

Gwelsom fod y cyfleusterau, y safle a'r sesiynau clinigol yn cael eu defnyddio'n effeithlon, a bod gofal deintyddol brys yn cael ei ddarparu gan ddefnyddio slotiau brys dyddiol dynodedig fel rhan o'r rhaglen ddeintyddol. Roedd y practis hefyd yn gweithredu rhestr byr rybudd er mwyn defnyddio unrhyw apwyntiadau a oedd wedi cael eu canslo.

## Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

### Arweinyddiaeth

#### Llywodraethu ac Arweinyddiaeth

Mae'r practis yn rhan o grŵp cenedlaethol o bractisau o dan faner Rodericks Dental Partners. Rheolwr y practis oedd yn rheoli gweithrediad dyddiol y practis, gyda chymorth rheolwr cydymffurfiaeth yr ardal. Roeddem o'r farn bod trefniadau llywodraethu ac arweinyddiaeth effeithiol ar waith mewn perthynas â maint y gwasanaeth, a disgrifiwyd llinellau adrodd clir. Gwelsom fod aelodau'r uwch-dîm rheoli yn agored a bod y staff yn gallu mynd atynt yn hawdd, ac roedd rhyngweithio cyson rhyngddynt yn ystod ein harolygiad.

Disgrifiwyd trefniadau addas ar gyfer rhannu gwybodaeth berthnasol â thîm o staff y practis, gan gynnwys cyfarfodydd staff rheolaidd, bwletinau wythnosol a grwpiau staff ar WhatsApp. Gwelsom fod cofnodion cynhwysfawr ac wedi'u hysgrifennu'n dda yn cael eu cymryd mewn cyfarfodydd, a'u bod yn cynnwys amrywiaeth o bynciau perthnasol a phwyntiau gweithredu. Roedd y rhain ar gael i staff a oedd yn absennol er mwyn sicrhau eu bod yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am faterion sy'n gysylltiedig â gwaith. Dywedwyd wrthym y byddai hysbysiadau diogelwch yn cael eu hanfon dros e-bost er mwyn cael derbynneb darllen.

Roedd amrywiaeth o bolisiau ysgrifenedig ar gael i'r staff i'w cefnogi yn eu rolau. Roedd hyn yn cael ei reoli drwy system gyfrifiadurol y practis, a oedd yn cofnodi pan oedd y staff wedi darllen y ddolen ac yn darparu cofrestr drefnus o bolisiau i'r practis.

Roedd un o'r sylwadau a gafwyd gan y staff yn yr holiaduron yn cynnwys:

*“Rwy'n edrych ymlaen at fynd i'r practis bob bore. Mae'r cleifion yn cael eu trin â pharch ac urddas. Mae'r staff yn hapus ac yn gydweithredol. Mae'r rheolwyr yn ymdrin â chwynion yn brydlon. Rhoddir adborth er mwyn*

*gwella ansawdd y gwasanaeth a ddarperir a'n gweithgareddau o ddydd i ddydd. Mae'r swydd yn rhoi boddhad mawr."*

## **Y Gweithlu**

### **Gweithlu Medrus a Galluog**

Yn ogystal â'r tîm rheoli, roedd tîm y practis yn cynnwys un deintydd, dau hlyenydd, un therapydd, dwy nyrs ddeintyddol, dwy nyrs dan hyfforddiant, a derbynydd. Gwelsom fod cymysgedd sgiliau a nifer y staff yn ddigonol ar gyfer y gwasanaethau deintyddol a ddarperir.

Dywedodd pob un o'r staff a gwblhaodd holiadur AGIC fod digon o staff i'w galluogi i wneud eu gwaith yn iawn a bod eu patrwm gwaith presennol yn rhoi cydbwysedd da rhwng gwaith a bywyd. Serch hynny, nid oedd un aelod o'r staff yn cytuno ei fod yn gallu ymdopi â gofynion croes ei waith, a nododd fod y swydd yn cael effaith andwyol ar ei iechyd. Roedd un aelod o'r staff hefyd yn anghytuno fod cymysgedd sgiliau priodol yn y practis.

**Rydym yn argymhell y dylai'r rheolwr cofrestredig fyfyrion ar y materion a godwyd yn yr adborth hwn er mwyn sicrhau bod anghenion staff a chleifion yn cael eu hystyried wrth drefnu'r gweithlu.**

Roedd polisi recriwtio ar waith yn y practis a oedd yn cynnwys manylion am y broses, gan gynnwys cynigion amodol yn unol â chydymffurfiaeth foddhaol â'r rhwymedigaethau proffesiynol. Dywedwyd wrthym fod yr uwch-aelodau o staff yn monitro gofynion cofrestru'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol, a bod y practis yn defnyddio staff asiantaeth o bryd i'w gilydd ac yn gwirio eu cofnodion mewn perthynas â'u cymwysterau a gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd cyn caniatáu iddynt weithio yn y practis.

Disgrifiwyd proses sefydlu addas ar gyfer aelodau newydd o staff y practis er mwyn helpu i sicrhau eu bod yn deall eu rolau a'u bod yn ymwybodol o bolisiau a gweithdrefnau'r practis. Roedd y broses hon wedi'i dogfennu'n llawn a gwelsom dystiolaeth bod aelodau newydd o staff yn cael eu hasesu a'u cymeradwyo'n gymwys. Roedd polisi chwythu'r chwiban ar waith ar gyfer staff y practis.

Gwnaethom edrych ar ffeiliau staff y practis. Roedd dystiolaeth bod y staff yn cael eu brechu a bod gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) wedi'u cynnal. Roedd yr holl ffeiliau yn cynnwys disgrifiadau swydd, contractau cyflogaeth a geirdaon ysgrifenedig ar gyfer y cyflogeion. Lle nad oeddent yn cynnwys geirdaon, gwelsom fanylion llawn ymholiadau a wnaed ac asesiad risg gysylltiedig. Gwelsom fod y staff wedi llofnodi datganiadau blynyddol i roi gwybod i reolwyr y practis am unrhyw newidiadau a fyddai'n effeithio ar statws eu gwiriad gan y Gwasanaeth

Datgelu a Gwahardd, ond nid oedd hyn yn un o rwymedigaethau ysgrifenedig y contract cyflogaeth. Gwnaethom drafod mantais cynnwys adran yn y contract cyflogaeth sy'n bodloni'r gofyniad hwn.

Gwelsom fod cydymffurfiaeth y staff â hyfforddiant gorfodol yn dda a bod y staff wedi cwblhau hyfforddiant ychwanegol ar amrywiaeth o bynciau sy'n berthnasol i'w rolau yn y practis. Roedd yr hyfforddiant hwn ar gael drwy wasanaeth ar-lein ac roedd yn cael ei ddyrannu a'i fonitro gan reolwr y practis. Fodd bynnag, dywedodd un aelod o'r staff a gwblhaodd holiadur AGIC ei fod am gael hyfforddiant ychwanegol ar ddefnyddio meddalwedd y practis.

Roedd llawlyfr staff ar gael i bob aelod staff gyfeirio ato a gwelsom dystiolaeth bod staff y practis yn cael arfarniadau bob chwe mis. Fodd bynnag, dywedodd un aelod o'r staff a gwblhaodd holiadur AGIC nad oedd wedi cael arfarniad yn ystod y 12 mis diwethaf, a dywedodd dau arall na allent gofio.

**Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau'r canlynol:**

- **Bod pob aelod o'r staff yn cael arfarniad yn unol â pholisi'r practis a bod proses yn cael ei rhoi ar waith i sicrhau bod yr arfarniadau hyn yn cael eu cynnal mewn modd amserol.**

## **Diwylliant**

### **Ymgysylltu â Phobl, Adborth a Dysgu**

Gwelsom fod gan y practis deintyddol system gynhwysfawr ar gyfer ymgysylltu â chleifion, casglu adborth, a dysgu oddi wrtho er mwyn gwella gwasanaethau'n barhaus. Roedd y practis wedi sefydlu sawl ffordd i'r cleifion roi adborth ar eu profiadau, gan gynnwys drwy adolygiadau ar-lein, cyfryngau cymdeithasol ac arolygon boddhad cleifion blynyddol. Dywedwyd wrthym fod y cleifion hefyd yn cael neges destun wedi'i hawtomeiddio yn dilyn pob apwyntiad yn gofyn am adborth, sy'n llywio gwaith y rheolwyr lleol a'r grŵp deintyddol ehangach.

Gwelsom fod llawer o adolygiadau cadarnhaol wedi'u gwneud dros y misoedd diwethaf ar wefan y practis, yn enwedig mewn perthynas â gofal i gleifion pryderus. Roedd blwch awgrymiadau yn y dderbynfa a oedd yn galluogi cleifion heb dechnoleg ddigidol i fynegi eu barn a gwneud sylwadau yn gyfrinachol. Gwelsom fod hysbysiad 'Dywedoch chi, gwnaethom ni' yn cael ei arddangos yn yr ardal aros i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r cleifion am newidiadau a wnaed o ganlyniad i'w hadborth.

Gwelsom fod gweithdrefn gwyno ysgrifenedig ar waith er mwyn rheoli cwynion am y gofal deintyddol a ddarperir yn y practis. Roedd y weithdrefn hon yn cynnwys enw'r unigolyn sy'n gyfrifol am ymdrin â chwynion a'r amserlenni ar gyfer eu

cydnabod ac ymateb iddynt. Roedd copi cryno wedi'i arddangos yn Gymraeg ac yn Saesneg yn yr ardal aros i gleifion ac wedi'i gynnwys yn y daflen wybodaeth i gleifion.

Gwelsom fod gan y practis gyfeiriad e-bost canolog i ymdrin â chleifion. Roedd y rhain yn cael eu cofnodi ar system olrhain cwynion a'u hanfon at dîm cwynion canolog y grŵp i'w dadansoddi. Roedd hyn yn galluogi themâu a thueddiadau i gael eu nodi ar lefel leol a chenedlaethol o fewn y grŵp ac yn fodd i rannu dysgu ehangach mewn perthynas ag amrywiaeth eang o faterion. Gwnaethom edrych ar nifer o'r cwynion a gwelsom fod y broses wedi'i dilyn drwyddi draw.

Dywedodd pob un o'r ymatebwyr a atebodd y cwestiwn wrthym eu bod wedi cael gwybodaeth am sut y byddai'r practis yn datrys unrhyw bryderon neu gwynion ar ôl triniaeth.

Gwelsom fod polisi ar waith yn y practis mewn perthynas â'r Ddyletswydd Gonestrwydd, a oedd yn nodi arweinydd y practis ar y mater a chyfrifoldebau'r staff. Roedd yr holl ffeiliau staff a welsom yn dangos eu bod wedi cael hyfforddiant ar y pwnc hwn.

Roedd pob un o'r staff a gwblhaodd holiadur AGIC yn cytuno bod y practis yn eu hannog i roi gwybod am wallau a digwyddiadau, a bod camau'n cael eu cymryd i sicrhau nad yw digwyddiadau yn digwydd eto. Fodd bynnag, nid oedd un aelod o'r staff a gwblhaodd holiadur AGIC yn cytuno ei fod yn deall y Ddyletswydd Gonestrwydd a'i rôl o ran cyrraedd y safonau hyn.

**Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod pob aelod o'r staff yn deall y Ddyletswydd Gonestrwydd ac yn ymwybodol o'i rôl o ran cyrraedd y safon hon. Gall hyn gynnwys rhagor o hyfforddiant os oes angen.**

Hyd yma, ni fu unrhyw ddigwyddiadau lle bu'n rhaid rhoi proses y Ddyletswydd Gonestrwydd ar waith.

## **Gwybodaeth**

### **Llywodraethu Gwybodaeth a Thechnoleg Ddigidol**

Roedd polisi diogelu data a gwybodaeth addas ar waith yn y practis, ynghyd â pholisi rheoli cofnodion er mwyn helpu i sicrhau bod gwybodaeth am gleifion yn cael ei thrin a'i storio'n briodol. Roedd y ddwy ddogfen wedi cael eu hadolygu yn ystod y 12 mis diwethaf.

Roedd proses ar gyfer digwyddiadau o bwys a diogelwch cleifion ar waith yn y practis, ac roedd siart lif y gellid cyfeirio ati'n hawdd ar gael yn ystafell y staff/. Byddai digwyddiadau'n cael eu cofnodi ar system TG y practis a'u trafod rhwng y timau cyfrifol o fewn y grŵp deintyddol. Byddai gwybodaeth yn cael ei rhannu drwy gyfarfodydd tîm a grwpiau perthnasol ar WhatsApp. Dywedwyd wrthym nad oedd unrhyw ddiwyddiadau o'r fath wedi cymryd lle hyd yma.

## **Dysgu, Gwella ac Ymchwil**

### **Gweithgareddau Gwella Ansawdd**

Roedd gweithdrefnau priodol ar waith yn y practis fel rhan o'i weithgareddau gwella ansawdd. Gwelsom dystiolaeth o raglen dda o archwiliadau clinigol rheolaidd, gan gynnwys archwiliadau mewn perthynas â rhoi'r gorau i smygu, radiograffeg, rhagnodi a gwastraff clinigol, yr oedd eu canlyniadau yn cyfrannu at drafodaethau'r staff. Dywedwyd wrthym fod y practis wedi prynu cadeiriau â breichiau ar gyfer yr ardal aros i gleifion yn dilyn archwiliad diweddar o fynediad i bobl anabl.

Dywedwyd wrthym fod y practis yn ymgysylltu â grŵp clwstwr corfforaethol i rannu syniadau a cheisio cyngor, a gwelsom fod y practis yn defnyddio adnoddau rheoli ansawdd a datblygu tîm, gan gynnwys cynllun arferion da Cymdeithas Ddeintyddol Prydain.

## **Dull Systemau Cyfan**

### **Gweithio mewn Partneriaeth a Datblygu**

Disgrifiwyd trefniadau addas ar gyfer ymgysylltu â gwasanaethau eraill fel gwasanaethau diogelu, ymarferwyr cyffredinol a fferyllfeydd. Roedd hyn yn helpu'r practis i ddarparu gofal iechyd cydgysylltiedig i'r cleifion a'r gymuned ehangach.



## 4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

# Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Ni ddatryswyd unrhyw bryderon uniongyrchol yn ystod yr arolygiad.			

# Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: Practis Deintyddol St James

Dyddiad yr arolygiad: 17 Medi 2024

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiffyg cydymffurfio sy'n ymwneud â diogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n nodi'r camau brys y mae'n eu cymryd.

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ni nodwyd unrhyw welliannau yr oedd angen eu gwneud ar unwaith yn ystod yr arolygiad hwn.					

# Atodiad C - Cynllun gwella

Gwasanaeth: Practis Deintyddol St James

Dyddiad yr arolygiad: 17 Medi 2024

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Dyweddau dau o'r ymatebwyr a gwblhaodd holiadur AGIC na fyddent yn gwybod sut i gael gafael ar y gwasanaeth deintyddol y tu allan i oriau pe bai ganddynt broblem ddeintyddol frys.	Rydym yn argymhell y dylai'r rheolwr cofrestredig fyfyrion ar y materion a godwyd yn yr adborth hwn er mwyn sicrhau bod cleifion yn gwybod sut i gael gafael ar y gwasanaeth deintyddol y tu allan i oriau.	Safon Ansawdd - Amserol	Mae hysbysiad ychwanegol wedi'i arddangos yn y dderbynfa i roi gwybod i'r cleifion ble y gallant gael gwybodaeth y tu allan i oriau; <ul style="list-style-type: none"><li>Ar wefan y practis</li><li>Ar yr arwyddion ar flaen yr adeilad</li><li>Yn nhaflen y practis</li><li>Neges peiriant ateb y practis</li></ul>	Tanya Purcell Rheolwr y Practis	Wedi'i gwblhau

<p>Ychydig o daflenni oedd ar gael mewn fformatau eraill, fel hawdd eu deall neu ffont mawr, a oedd yn ystyried anghenion cleifion ag anawsterau darllen.</p>	<p>Rhaid i'r rheolwr cofrestredig roi manylion i AGIC am y ffordd y bydd y practis yn darparu gwybodaeth mewn fformatau eraill sydd o fudd i gleifion ag anawsterau darllen.</p>	<p>Safon Ansawdd - Teg</p>	<p>Mae deunydd hawdd ei ddeall ychwanegol wedi'i lawrlwytho o wefan Iechyd Cyhoeddus Cymru a bellach ar gael yn y dderbynfa.</p>	<p>Rachel Thomas Rheolwr Cydymffurfiaeth</p>	<p>Wedi'i gwblhau</p>
<p>Gwelsom hollt sylweddol yn y wal wrth y grisiau a oedd yn destun adroddiad gan beiriannydd adeiladau.</p> <p>Gwnaethom hefyd sylwi ar hollt llai amlwg, ond mawr ar y wal ochr allanol, ynghyd â phibellau a oedd wedi'u difrodi'n wael.</p>	<p>Rhaid i'r rheolwr cofrestredig wneud y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC am gynnydd gwaith i ddatrys yr hollt yn y wal</li> <li>• Darparu sicrwydd ysgrifenedig ynghylch cyflwr strwythurol yr adeilad</li> </ul>	<p>Rheoliad 22(2)(b)</p>	<p>Defnyddio Objective Connect i rannu cynnydd o ran cwmpas y gwaith.</p> <p>Mae'r contractwr yn fodlon bod cwmpas y gwaith atgyweirio a gymeradwywyd yn ddigon i ymdrin â'r holltau a nodwyd.</p> <p>Mae adroddiad monitro ar yr hollt yn awgrymu mai newidiadau tymhorol ydynt yn ôl pob golwg - Caiff yr adroddiad ei lanlwytho i Objective Connect.</p>	<p>Morta Dias Rheolwr Eiddo ac Ystadau</p>	<p>3 mis</p>

	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Trwsio'r pibellau wedi'u difrodi ar y wal ochr allanol.</li> </ul>		Bydd gwaith ar y pibellau yn cael ei gwblhau fel rhan o gwmpas y gwaith atgyweirio.		
<b>Gwelsom fod yr islawr yn llaith iawn ac yn ymddangos mewn cyflwr gwael iawn.</b>	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig wneud trefniadau addas i ddatrys y broblem lleithder er mwyn atal hyn rhag effeithio ar safonau atal a rheoli heintiau yn y practis.	Rheoliad 22(2)(a), (b) & 13(6)(b)(i)	Dywedwyd wrth y practis fod ffynhonnell y lleithder yn deillio o'r achos o ddwyn sêl blwm o'r to, sydd bellach wedi'i atgyweirio.  Caiff hyn ei fonitro a chymerir camau i drin y lleithder	Morta Dias  Rheolwr Eiddo ac Ystadau	3 mis
<b>Gwelsom nad oedd sil y ffenestr yn neintyddfa un wedi cael ei selio'n ddigonol, gan olygu bod llwch a malurion yn cronni y tu ôl iddi.</b>	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig drefnu i sil y ffenestr gael ei selio'n briodol er mwyn helpu i sicrhau bod y ddeintyddfa'n cael ei glanhau'n ddigonol.	Rheoliad 22(2)(b)	Mae sil y ffenestr yn neintyddfa un wedi cael ei hail-selio.	Tanya Purcell  Rheolwr y Practis	Wedi'i gwblhau
<b>Gwelsom fod hen gofnodion papur y tenantiaid blaenorol wedi cael eu symud i system ddata'r practis. Fodd bynnag, roedd y</b>	Rhaid i reolwr y practis wneud trefniadau priodol i wneud y canlynol: <ul style="list-style-type: none"> <li>• symud cofnodion cleifion sydd o fewn</li> </ul>	Rheoliad 20(1)  Adran 170, Deddf Diogelu Data 2018	Mae gwaith wedi dechrau i fynd drwy'r cofnodion.  Rydym wrthi'n gwneud yn siŵr bod pob cofnod o fewn y	Tanya Purcell  Rheolwr y Practis	6 mis

<p>cofnodion hyn yn cael eu storio'n briodol yn yr islawr ac roedd y rhai y gwnaethom edrych arnynt wedi mynd y tu hwnt i'r cyfnod cadw angenrheidiol.</p>	<p>y cyfnod cadw gorfodol a'u storio'n briodol</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• gwaredu cofnodion cleifion sydd wedi mynd y tu hwnt i'r cyfnodau cadw yn ddiogel.</li> </ul>		<p>cyfnod cadw yn cael ei lanlwytho i'n system.</p> <p>Mae gennym gyfrif gyda chwmni darnio papur a fydd yn difetha'r holl gofnodion sydd y tu hwnt i'r cyfnod cadw.</p> <p>Mae'r cofnodion yn cael eu storio'n ddiogel yn ystod y broses hon.</p>		
<p>Gwnaethom nodi rhai hepgoriadau yn y cofnodion, gan gynnwys cofnodion anghyson mewn perthynas â chyfiawnhad dros gynnal pelydrau-X ac asesiadau risg ar gyfer ceudodau a thraul dannedd, a diffyg cofnodion ar gyfer profion sgrinio am ganser.</p>	<p>Rhaid i'r rheolwr cofrestredig roi manylion i AGIC am y camau a gymerwyd i fynd i'r afael â'n canfyddiadau mewn perthynas â chyflawnder cofnodion y cleifion.</p>	<p>Rheoliad 20(1)(a)(i) a (ii)</p>	<p>Caiff y canlyniadau a nodwyd eu trafod â'r tîm.</p> <p>Mae sgriniau pwrpasol wedi'u hadolygu a'u rhoi ar waith ar y feddalwedd gyfrifiadurol i gynnwys pob agwedd ar sicrhau bod cofnodion cleifion yn gyflawn.</p> <p>Mae adnodd canser y geg AaGIC wedi'i ddefnyddio ac mae camau gweithredu yn mynd rhagddynt.</p>	<p>Tanya Purcell</p> <p>Rheolwr y Practis</p>	<p>3 mis</p>

			Bydd rheolwr y practis yn ailedrych ar gofnodion cleifion ac yn cydgysylltu â'n cynghorydd clinigol i'w hadolygu er mwyn sicrhau bod cofnodion cleifion yn gyflawn ac yn parhau felly.		
<b>Nid oedd dewis iaith y cleifion yn cael ei gofnodi'n gyson. Gallai hyn atal gofal cleifion effeithiol wedi'i deilwra at yr unigolyn.</b>	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff dewis iaith y cleifion a'r camau a gymerwyd i fynd i'r afael ag unrhyw anghenion ieithyddol eu cofnodi yng nghofnodion cleifion.	Rheoliad 13(1)(a)	Caiff meysydd gorfodol eu cynnwys yn ein system i gofnodi dewis iaith.  Mae rhagor o sgriniau pwrpasol wedi'u hychwanegu fel bod modd cofnodi trafodaethau ynghylch dewis iaith ac unrhyw gamau rydym yn bwriadu eu cymryd yn nodiadau clinigol y cleifion.	Tanya Purcell  Rheolwr y Practis	Wedi'i gwblhau
<b>Nid oedd un aelod o'r staff yn cytuno ei fod yn gallu ymdopi â gofynion croes ei waith, a bod y swydd yn cael effaith andwyol ar ei iechyd. Roedd un aelod o'r staff</b>	Rydym yn argymhell y dylai'r rheolwr cofrestredig fyfyrion ar y materion a godwyd yn yr adborth hwn er mwyn sicrhau bod anghenion staff a chleifion yn cael eu	Rheoliad 17(1)	Dangosodd trafodaethau â'r staff y gallent fod wedi camddeall y cwestiwn wrth gwblhau'r holiadur i staff.  Mae'r practis wedi myfyrio ar y cymysgedd sgiliau ac	Tanya Purcell  Rheolwr y Practis	Wedi'i gwblhau



<p>hefyd yn anghytuno fod cymysgedd sgiliau priodol yn y practis.</p>	<p>hystyried wrth drefnu'r gweithlu.</p>		<p>anghenion y staff a'r cleifion ac nid oes angen gwneud unrhyw addasiadau rhesymol pellach ar hyn o bryd.</p> <p>Mae adnoddau ar gael i'r staff os ydynt yn teimlo bod angen iddynt wneud addasiadau i'w llwyth gwaith neu gael cymorth.</p>		
<p>Dyweddodd un aelod o'r staff a gwblhaodd holiadur AGIC nad oedd wedi cael arfarniad yn ystod y 12 mis diwethaf, a dywedodd dau arall na allent gofio.</p>	<p>Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau'r canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Bod pob aelod o'r staff yn cael arfarniad yn unol â pholisi'r practis a bod proses yn cael ei rhoi ar waith i sicrhau bod yr arfarniadau hyn yn cael eu cynnal mewn modd amserol.</li> </ul>	<p>Rheoliad 17(4)</p>	<p>Roedd aelodau newydd o staff wedi dechrau nad oedd angen iddynt gael arfarniad o fewn amserlenni'r polisi.</p> <p>Dim camau pellach.</p>	<p>Tanya Purcell Rheolwr y Practis</p>	<p>Wedi'i gwblhau</p>
<p>Nid oedd un aelod o'r staff a gwblhaodd holiadur AGIC yn cytuno</p>	<p>Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod pob aelod o'r staff yn deall</p>	<p>Safon Ansawdd - Diwylliant</p>	<p>Roedd gennym aelodau newydd o staff nad oeddent</p>	<p>Tanya Purcell</p>	<p>Wedi'i gwblhau</p>

<p>ei fod yn deall y Ddyletswydd Gonestrwydd a'i rôl o ran cyrraedd y safonau hyn.</p>	<p>y Ddyletswydd Gonestrwydd ac yn ymwybodol o'i rôl o ran cyrraedd y safon hon. Gall hyn gynnwys rhagor o hyfforddiant os oes angen.</p>	<p>Rheoliad 17(3)(b)</p>	<p>wedi cwblhau'r broses sefydlu lawn ar y pryd.</p> <p>Mae ffurflenni'r ddyletswydd gonestrwydd yn rhan o'r broses hyfforddi a sefydlu orfodol. Caiff y broses hon ei chwblhau dros gyfnod amrywiol o amser yn dibynnu ar y rôl.</p> <p>Mae pob aelod o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant ar y Ddyletswydd Gonestrwydd.</p>	<p>Rheolwr y Practis</p>	
--	---	--------------------------	--	--------------------------	--

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

### Cynrychiolydd y gwasanaeth

**Enw (priflythrennau): Rachel Thomas**

**Teitl swydd: Rheolwr Cydymffurfiaeth**

**Dyddiad: 07/11/2024**